



Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Fwyd Co-op

Datblygwyd y gronfa hon mewn partneriaeth â Ymddiriedolaeth Argyfyngau Genedlaethol a'r Co-op i gefnogi prosiectau tlodi bwyd cynaliadwy.

Blaenoriaethau Allweddol y gronfa:

- **AILDDOSBARTHU** - Byddwn yn mynd ati i ailddosbarthu ein bwyd dros ben i'r bobl sydd ei angen fwyaf yn ein cymunedau
- **MYNEDIAD** - Byddwn yn darparu mynediad hawdd i fwyd maethlon a phrydau cytbwys i gwsmeriaid sydd â chyllideb gyfyngedig
- **UWCHSGILIO** - Byddwn yn helpu i addysgu ac uwchsgilio cwsmeriaid ar atebion cost isel i brydau bwyd, cyfyngu ar wastraff bwyd a siopa'n ddoeth
- **POBL IFANC** - Byddwn yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy flaenoriaethu lles plant a phobl ifanc sy'n cael trafferth gydag ansicrwydd bwyd
- **CYMUNEDAU*** - rhaglenni bwyd ar gyfer cymunedau sy'n agored i niwed a ddarperir yn y cymunedau hynny

*mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'w nodi fel pe bai'n cynnwys bwyd brys, mae hefyd yn cynnwys prosiectau sy'n mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd a'i effeithiau.

Grantiau ar Gael

- Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael.

Pwy all wneud cais?

Grwpiau cymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol sydd yn rhedeg prosiectau i gefnogi'r gymuned i fynd i'r afael ag effaith pandemig Coronafirws COVID-19 yng Nghymru.

Mae grantiau ar gael i sefydliadau sydd ag incwm o lai na £1 filiwn o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, oherwydd y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan Grwpiau sy'n gweithio yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. E.e. y rhai o fewn yr 20% uchaf ar Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD).

Dim ond i grwpiau a sefydliadau a all ddangos eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn glynu wrth ganllawiau'r llywodraeth ynglŷn â'r feirws byddwn yn ei gefnogi.

Beth allwch wneud cais amdano

- Costau prosiect a chostau rhedeg sefydliadau yn cael eu cefnogi, gan gynnwys costau staff, treuliau gwirfoddolwyr a chostau cludiant.
- Mae costau cyfalaf bach hefyd yn gymwys, ar yr amod bod yr eitemau cyfalaf yn uniongyrchol gysylltiedig â thlodi bwyd. or individuals

Ni fydd y Gronfa yn cefnogi:

- Unigolion
- Busnesau

Mae'r Llywodraeth yn darparu cymorth i unigolion a busnesau.

Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

DYDDIAD CAU – 12yh ar 13eg o Dachwedd, 2020

Noder:

- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd weid'l wneud cyn derbyn y llythyr cynnig grant a'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi.
- Ni chefnogir prosiectau sy'n dod o fewn cyfrifoldeb y sector statudol e.e. unrhyw beth sy'n dod o fewn y cwricwlwm ysgol.